

MATHEMATEG PWYLLGOR YMGYNGHOROL STAFF A MYFYRWYR

CYFANSODDIAD Y DRAFFT ARNO 02 RHAGFYR 2008

1) Nod y Pwyllgor Ymgynghorol

I hyrwyddo cydweithredu rhwng y staff a'r myfyrwyr sy'n astudio yn y Sefydliad.

2) Aelodau'r Pwyllgor

2.1 Dyma aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol o du'r staff, gan sicrhau cynrychiolaeth o sawl safbwynt, sef Dysgu, Asesu, Gweinyddu, y Gwasanaethau Gwybodaeth a Lles, o leiaf:

- a) Uwch-diwtor
- b) Gweinyddydd y Sefydliad
- c) Cynrychiolydd o'r Gwasanaethau Gwybodaeth
- d) Aelodau eraill o'r staff fel y bo'n briodol

2.2 Bydd cyfanswm o hyd at 10 cynrychiolydd o du'r myfyrwyr ar y Pwyllgor Ymgynghorol, sef:

- a) 2 gynrychiolydd o Mathemateg Blwyddyn 1
- b) 2 gynrychiolydd o Mathemateg Blwyddyn 2
- c) 2 gynrychiolydd o Mathemateg Blwyddyn 3
- d) Hyd at 2 gynrychiolydd o Mathemateg Blwyddyn 4 (MMath)
- e) 1 cynrychiolydd o Uwchraddedigion Ffiseg
- f) Llywydd y Gymdeithas Fathemateg

2.3 Ar ôl yr etholiadau, bydd enwau'r Pwyllgor Ymgynghorol yn cael eu hanfon ymlaen at yr Ysgrifennydd Adrannol gan yr ysgrifennydd.

2.4 Enwebir Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol o blith cynrychiolwyr y myfyrwyr yng nghyfarfod cyntaf pob sesiwn.

3) Etholiadau

- 3.1 Yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn academaidd, bydd y Swyddogion Etholiadol yn gofyn am enwebiadau i swyddi cynrychiolwyr y myfyrwyr. Bydd y cynrychiolwyr hyn yn cychwyn ar eu dyletswyddau yn y cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhelir yn ystod y tymor cyntaf ar ôl yr etholiadau. Os yw'r enwebiadau a geir yn fwy na'r nifer o swyddi gwag sydd ar gael, cynhelir etholiad o blith myfyrwyr y flwyddyn honno i benderfynu pwy fydd eu cynrychiolwr neu eu cynrychiolwyr. Ar ôl iddynt gael eu hethol, dangosir y rhestr derfynol o enwau cynrychiolwyr y myfyrwyr a'u cyfeiriadau ebost ar yr hysbysfyrddau priodol ac ar wefan y Sefydliad.
- 3.2 Bydd pawb a enwebir yn cael eu cynnig a'u heilio. Bydd y cynigiwr a'r eilydd i bob cynrychiolydd yn aelodau o'r un flwyddyn astudio â'r ymgeisydd. Rhaid i'r sawl a enwebir gytuno i gael eu henwebu, ac fe ddylent ddarparu dogfen ysgrifenedig neu lofnod i'r perwyl hwnnw.
- 3.3 Cynhelir pob etholiad drwy bleidlais drosglwyddadwy.
- 3.4 Ym mhob etholiad o blith y myfyrwyr, aelodau o'r staff academaidd fydd y Swyddogion Etholiadol.
- 3.5 Bydd Pennaeth yr Adran yn cadarnhau pwy fydd cynrychiolwyr y staff ar y Pwyllgor Ymgynghorol, yn unol â swyddogaethau'r staff a roddir yn 2.1.

4) Cofnodion

- 4.1 Ysgrifennydd o dîm gweinyddu'r Sefydliad fydd yn cymryd cofnodion y cyfarfodydd. Cylchredir drafft o'r cofnodion i aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol er mwyn rhoi cyfle iddynt gynnig newidiadau. Cyflwynir y cofnodion i'r Pwyllgor Ymgynghorol nesaf i'w cymeradwyo'n derfynol.
- 4.2 Bydd cofnodion y Pwyllgor Ymgynghorol a gymeradwywyd yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg a'u dangos yn ddwyieithog ar hysbysfyrddau'r Sefydliad. Fe'i dangosir hefyd ar wefan y Sefydliad.

- 4.3 Cedwir copïau o holl gofnodion, agendâu a phapurau cylchredeg y Pwyllgor Ymgynghorol mewn archif canolog.
- 4.4 Cyflwynir holl gofnodion cymeradwy Pwyllgor Ymgynghorol Staff/Myfyrwyr i'r Gyfadran.

5) Cyfarfodydd

- 5.1 Cynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol o leiaf unwaith pob tymor.
- 5.2 Bydd yr ysgrifennydd yn ebostio at aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol cyn pob cyfarfod i ofyn am eitemau i'r agenda.
- 5.3 Bydd yr ysgrifennydd yn cylchredeg agendâu, copïau o'r cofnodion i'w cymeradwyo, a phapurau eraill a gafwyd, o leiaf un wythnos cyn dyddiad y cyfarfod.
- 5.4 Dylai aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol na allant ddod i'r cyfarfod anfon eu hymddiheuriadau at yr ysgrifennydd.
- 5.5 Anfonir cofnodion y Pwyllgor Ymgynghorol ymlaen i'r Pwyllgor Gweithredol Dysgu ac Addysg, ac oddi yno i gyfarfodydd Staff y Sefydliad fel y bo'n briodol.

6) Newidiadau i'r Cyfansoddiad

- 6.1 Caiff unrhyw aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol gynnig newidiadau i'r Cyfansoddiad.
- 6.2 Ceir cytuno ar newid dros-dro i gyfansoddiad y Pwyllgor Ymgynghorol drwy bleidlais fwyafrifol syml.
- 6.3 Anfonir y cynnig a dderbyniwyd dros-dro at y myfyrwyr drwy'r ebost, gan argymhell eu bod yn cysylltu â'u cynrychiolwyr os bydd ganddynt wrthwynebiadau. Os na cheir wrthwynebiadau cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol, bernir bod y newid dros-dro wedi'i dderbyn gan yr Etholwyr. Os ceir wrthwynebiadau, y Pwyllgor Ymgynghorol fydd yn penderfynu a ddylid cymryd camau, ac os felly, pa gamau i'w cymryd.